



YSGOL GYMUNED LLANFEHELL COMMUNITY SCHOOL
FFORDD Y MYNYDD
LLANFEHELL
AMLWCH
YNYS MÔN
LL68 OSA



PENNAETH / HEAD TEACHER: Mrs. Meinir L. Roberts B.Add. (Anrhyd.)

01407 710 512 pennaeth.llanfechell@ynysmon.gov.uk www.llanfechell.anglesey.sch.uk

Panto Llandudno

Bore dydd Llun Hydref y 20fed fe fydd yr ysgol yn prynu'r tocynnau ar gyfer y Panto yn Llandudno. Unwaith mae'r tocynnau wedi eu prynu ni fydd Venue Cymru yn rhoi ad-daliad petai blentyn ddim yn y mynd i'r sioe. Os nad yw eich plentyn am fynychu'r sioe mae'n hanfodol eich bod yn gadael i'r ysgol wybod cyn 9.30 bore dydd Llun. Yn anffodus ni all yr ysgol ysgwyddo costau cansladau er y byddwn yn ad-dalu costau bws.

Cymdeithas Cyfeillion Ysgol Gymuned Llanfechell

Rydym yn awyddus i ailsefydlu Cymdeithas Cyfeillion yr Ysgol. Cymdeithas fydd hon fydd yn agored i rieni, neiniau a theidiau, modryb ac ewythr a ffrindiau. Yn wir, unrhyw un fyddai'n hoffi cael cyfle i gymdeithasu, cael hwyl a chyfarfod pobl newydd. Cymdeithas fydd hon fydd yn cael ei redeg yn bennaf gan rieni. Bydd y Gymdeithas yn gyfrifol am:

1. trefnu nosweithiau cymdeithasol
2. codi arian i'r ysgol ac elusennau lleol
3. codi proffil yr ysgol

Hoffwn hefyd ein gweld yn creu tudalen grŵp caeedig ar Facebook ar gyfer yr ysgol. Fe fydd hwn yn ddull hawdd a sydyn o rannu gwybodaeth gyda chi fel rhieni.

Cynhelir y cyfarfod cyntaf ar nos Lun Tachwedd y 3ydd am 6.30yh. Dewch yn llu am baned a sgwrs – a dewch ac eraill gyda chi.

Noson Agored

Ymunwch gyda ni ar nos Fawrth Tachwedd y 24ain am 6.30yh er mwyn i chi gael cyfle i gyfarfod Llywodraethwyr a staff yr ysgol. Yn ystod y noson bydd cyfle i chi

- fynd am dro o amgylch y dosbarthiadau
- gofyn cwestiynau i'r Llywodraethwyr a'r Pennaeth
- gweld safwe'r ysgol
- derbyn gwybodaeth am berfformiad yr ysgol
- rhannu eich syniadau a'ch barn am yr ysgol

Yn ystod y noson byddwn yn cyflwyno adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i chi, ynghyd â rhannu darganfyddiadau Estyn yn dilyn eu harolygiad ym mis Mehefin. Bydd paned a lluniaeth ysgafn ar gael yn ystod y noson. Dewch yn llu.

Mrs Meinir L Roberts
Pennaeth

Noson Agored

Hoffwn wybod pwy fydd yn gallu mynychu'r noson agored. A fyddech gystal a chwblhau'r bonyn isod a'i ddychwelyd erbyn Dydd Iau Hydref y 23ain? Diolch.

Bydd / Ni fyddaf yn bresennol yn y noson agored.

_____ (rhiant)